# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

## Cofnodion cryno (LC1(3)-13-10) Dyddiad: 21 Hydref 2010

**Amser:9.30 – 10:40**
**Lleoliad:Ystafell Bwyllgora 1**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Rosemary Butler (Cadeirydd), Gorllewin Casnewydd
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Chris Franks, Canol De Cymru
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Rhodri Morgan, Gorllewin Caerdydd
Nick Ramsay, Sir Fynwy

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Liz Wilkinson, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Stephen Davies, Cynghorydd Cyfreithiol
Ben Stokes, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones AM. Roedd Rhodri Morgan AM yn dirprwyo.

### Sesiwn breifat

Yn y cyfarfod ar 14 Hydref 2010, cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 (vi) i wahardd y cyhoedd o'i drafodaethau ar gyfer Eitem 2 ac unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol ynghylch yr argymhellion allweddol yn Adroddiad Cyfnod 1.

### Eitem 2: Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)

2.1. Ystyriodd y Pwyllgor faterion allweddol y dystiolaeth a gafwyd a chytunodd ar ei safbwynt ar gyfer yr adroddiad.